PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 26 MEHEFIN 2018

Yn bresennol: Aelodau Annibynnol:
Gavin McArthur, David Price a/ac David Hugh Thomas
Councillors Bale, Cowan, Cunnah, Howells, Lay, McGarry, Singh a/ac Walker

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Arundale.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Bale ddiddordeb personol mewn eitem agenda 10 fel Aelod o Undeb Credyd.

3 : PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD – bod Ian Arundale yn cael ei benodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a phenodir D.Hugh Thomas yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor.

4 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngornlynol wedi eu penodi i'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Mai 2018:

Aelodau Annibynnol: Ian Arundale, D. Hugh Thomas, Gavin McArthur a David Price

Cynghorwyr Bale, Cowan, Cunnah, Howells, Lay, McGarry, Singh a Walker

Hefyd gofynnwyd i'r Aelodau nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Dirprwy Gadeirydd.

Materion Gweithredol

6 : PAUL ORDERS, PRIF WEITHREDWR - DATGANIADAU SICRWYDD YR UWCH DÎM RHEOLI

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Weithredwr ar lywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol ledled yr awdurdod.

Croesawodd y Dirprwy Gadeirydd Paul Orders, y Prif Weithredwr, i'r cyfarfod. Traddododd y Prif Weithredwr gyflwyniad ar amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y strwythur uwch-reoli a dywedodd y cafodd y strwythur ei adolygu'n ddiweddar i gynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Pobl a

Chymunedau a chyflwyno'r Prif Swyddog Digidol.  Mae’r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am lywodraethu arolygu rheolaeth risg.

Dilynodd y cyflwyniad ymagwedd yr Awdurdod at reoli risg yn nhermau’r camau adolygu a’r swyddogion allweddol dan sylw, gyda ffocws wedi’i dynnu at yr 8 risg gweddilliol coch a’u lliniariadau targed a sgôr risg am bob un.  Hefyd tynnwyd sylw at y 2 risg corfforaethol nad oes cyfle ar hyn o bryd i leihau eu lefel risg gweddilliol ar eu cyfer.  Amlinellodd y Prif Weithredwr y broses SMAS a’r cydadwaith rhwng yr sicrwydd gan uwch swyddogion a sicrwydd annibynnol o'r swyddogaethau archwilio annibynnol

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddodd y Dirprwy Cadeirydd yr Aelodau i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cydnabu’r Pwyllgor yr amgylchedd ariannol heriol sy’n wynebu’r awdurdod. Ceisiodd yr aelodau sicrwydd a gofyn i’r Prif Weithredwr a oedd yn ystyried bod angen i rai rhannau’r sefydliad gael eu hamddiffyn.  Dywedodd y Prif Weithredwr fod y broses ar gyfer cynigion cyllidebol wedi dechrau ac  mae'n debygol y bydd angen i'r sefydliad fynd i'r afael â'r cwestiwn o a ellir disgwyl toriadau mewn meysydd sydd â chyfrifoldebau statudol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) yn cydweddu â phryderon y Prif Weithredwr ei hun.  Dangosodd y Prif Weithredwr fod ei bryderon ei hun yn cydweddu â nifer o'r rhai a sydd wedi'u hamlinellu yn y CRR.  Materion pwysig oedd Diogelwch y Ddinas, Diwygio Llesiant, Gwydnwch Ariannol ac Iechyd a Diogelwch Adeiladau Statudol.

- Nododd Aelod fod Datganiadau Sicrwydd yr Uwch-reolwr wedi arwain at 20% o geisiadau cymysg ar gyfer monitro cyllidebau.  Dywedodd y Prif Weithredwr fod 80% o arbedion yn cael eu cyflawni ond mae angen gwella dealltwriaeth a chynllunio cyflawniad arbedion Rheolwyr.  Dangosodd y diffyg o ran arbedion ataliol o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen gwelliant.

- Gofynnodd y Pwyllgor i ba raddau y mae rheoli risg yn llywio'r Rhaglen Archwilio Fewnol.  Dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnir llawer o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yn unig ar ei raglen waith adweithiol o ddydd i ddydd, ond hefyd wrth ddatblygu’r rhaglen archwilio.  Byddai’r Prif Weithredwr yn hoffi gweld mwy yn cael ei wneud yn nhermau cyflawni arbedion ond ystyriodd bod cydbwysedd i’w daro rhwng gwaith archwilio adweithiol a'r rhaglen a gynlluniwyd.  Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod o’r Pwyllgor, cadarnhaodd y Prif Weithredwr archwilio fod trafodaethau rheolaidd ynglŷn â’r cydbwysedd rhwng archwiliadau adweithiol ac wedi’u cynllunio ar lefel uwch reolwyr.  Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y risgiau megis Ansawdd yr Aer ac Erydu Arfordirol gynlluniau ar waith ac maent yn destun goruchwylio parhaus gan y rheolwyr.

- Nododd yr aelodau fod 26 o risgiau CRR, mae 8 o'r rhain yn weddilliol ac wedi'u sgorio'n 'goch' yn gynhenid.  Gofynnodd yr aelodau a oedd y Prif Weithredwr yn gyfforddus gyda’r lliniariadau sydd ar waith.  Ystyriodd y Prif Weithredwr fod yr awdurdod mewn sefyllfa resymol ond mae’n rhaid gosod

hyn yn erbyn llymder y pwysau ariannol y mae'r awdurdod yn eu hwynebu.

- Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei farn ar fyfyrdodau Huw Vaughan Thomas ar Flwyddyn 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r cyfnod ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar y cyfan. Derbyniwyd nad oedd cyrff cyhoeddus wedi'u haddasu'n llawn i'r cyd-destun deddfwriaethol newydd. Roedd gwaith i'w wneud o hyd yn nhermau prif-ffrydio beth yw goblygiadau penderfyniadau mewn gwasanaethau.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

7 : CHRISTINE SALTER, CYFARWYDDWR ADNODDAU CORFFORAETHOL - DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i ymateb i gais y Pwyllgor am ddiweddariad ar lywodraethu a rheoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Nod yr adrodd oedd rhoi sicrwydd ar weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol.

Gwahoddodd y Dirprwy Gadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau a gafodd y cynlluniau cysondeb busnes sydd ar waith eu profi ac a oedd gan y Cyfarwyddwr hyder yn y cynlluniau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y cynlluniau cysondeb busnes ar waith a darparwyd trosolwg o'r trefniadau hyn i'r Pwyllgor. Rhoddir y dasg i'r Uned Rheoli mewn Argyfwng o sicrhau bod gan gyfarwyddiaethau gynlluniau. Profwyd y cynllunio yn ddiweddar yn ystod ymateb y Cyngor i Storm Emma. Bydd ymarfer prawf hefyd yn cael ei gynnal yn ystod yr Hydref. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y trefniadau ar gyfer cysondeb busnes sydd ar waith yn dibynnu ar gadernid systemau T.G. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chyngor Caerffili, parthed trefniant cilyddol ar gyfer storio ac adfer TG a rennir.

- Gofynnodd yr aelodau sut y profir monitro perfformiad o fewn cyfarwyddiaethau. Dywedwyd wrth Aelodau bod profi monitro perfformiad yn rhan o rôl yr archwiliad mewnol. Gofynnodd yr Aelodau faint o ansawdd neu gysondeb sydd o ran monitro perfformiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gofyn i Reolwyr Gweithredol wneud gwiriadau sampl a 'profi ar hap' ar fonitro perfformiad er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi dangos bod angen gwella sgiliau Rheolwyr Gweithredol o ran rheoli perfformiad a bydd yr awdurdod yn ffocysu ar roi y trefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn.

- Ceisiodd Aelod egluro'r rhan a chwaraewyd gan Aelodau yn y broses gwneud penderfyniadau parthed cadw e-byst a gofynnodd a oedd Pwyllgor Craffu wedi ystyried y mater. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod e-byst yn offeryn cyfathrebu. Pe bai e-byst yn ofynnol fel cofnodion, dylent gael eu storio, eu harchifo a'i gael o rywle arall yn ôl y gofyn. Pan fydd gofyn i wybodaeth gael ei chadw a'i storio mae proses ar waith. Ni chafodd y mater ei hystyrid gan graffu ond cafodd ei gyfathrebu'n eang. Dywedodd yr Aelod ei fod yn anghyfforddus gyda'r penderfyniad a sut y caiff ei weld

gan y cyhoedd o bosibl. Cytunodd y Dirprwy Gadeirydd i egluro pa friffiadau/cyngor a ddarparwyd i Aelodau.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Cyllid
8 : NEWYDDION ARIANNOL YN CYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor i'r Pwyllgor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017/18 wedi'u cau ond na chafodd y sefyllfa alldro terfynol ei hadrodd yn ffurfiol i'r Cabinet eto. Mae'r sefyllfa alldro yn debygol o fod yn sefyllfa gytbwys yn debyg i'r hyn a ragwelwyd mewn adroddiadau monitro a gymerwyd yn ystod y flwyddyn. Caiff copi o'r adroddiad i'w dderbyn gan y Cabinet ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor maes o law.

Yn nhermau Strategaeth Cyllideb 2019/20, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y 2018/19 yn nodi gostyngiad tebygol yn y gyllideb o £91.4 miliwn dros y cyfnod 2019/20 i 2021/22. Mae hyn yn gyfuniad o bwysau cynyddol (£75.9 miliwn) a chyfyngiadau cyllidol posibl (£15.5 miliwn) Mae'r pwysau'n cynnwys chwyddiant mewn cyflog a phrisiau, cynyddiadau mewn galw a costau refeniw ariannu'r rhaglen gyfalaf. Mae'r gydran ariannu yn cymryd y bydd gostyngiad AEF blynyddol o bosibl o 1% dros y tair blynedd diwethaf. Bydd angen mynd yn ôl at y dybiaeth hon pan dderbynnir Setliad Dros Dro 2019/20 fis Hydref 2018.

Nod y Strategaeth Gyllidebol yw mynd i'r afael â'r bwlch yn y cyllid o £91.4 miliwn trwy gyfuniad o godiadau yn y Dreth Gyngor, defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodir a chap ar dwf ac arbedion ysgolion. Arbedion yw'r elfen fwyaf sef £66 miliwn dros y cyfnod tair blynedd. Mae Adroddiad ar y Strategaeth Gyllidebol i'w dderbyn gan y Cabinet fis Gorffennaf 2018. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y bydd Aelodau hefyd yn derbyn copi o'r adroddiad ar y Strategaeth Gyllidebol maes o law.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa gyfredol ynglŷn â'r adroddiad ar yr alldro 2017/18 a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol ar gyfer 2019/20.

9 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2017-18 (GAN CYNNWYS Y DATGANIAD BLYNYDDOL)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon Drafft 2017/18. Dywedwyd wrth yr Aelodau, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro ar wahân. Rhodd yr adroddiad cyfle i Aelodau adolygu a rhoi sylwadau ar y Datganiad Cyfrifon drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol i'w harchwilio'n allanol a'u harolygu'n gyhoeddus.

- Nododd yr Aelodau bod darpariaeth gronnus ar gyfer methu talu'r Dreth Gyngor yn fwy na £7 miliwn. Gofynnodd aelodau am ba mor hir y caniateir i ddyled gronni a gofynnwyd i'r swyddogion esbonio ar ba bwynt y diddymir dyled wael. Gofynnodd yr aelodau am gael manylion o'r polisi am reoli dyled wael, yn enwedig hyd yr amser y caniateir i ddyled wael gronni cyn

cael ei dileu.

- Gofynnodd Aelod a oes gan yr Awdurdod bolisi am roi buddion pensiwn gwell. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau nad yw'r Awdurdod yn darparu buddion gwell, heblaw am mewn achosion o salwch.

- Nododd aelodau fod dyledwyr y disgrifir fel 'endidau ac unigolion eraill' yn dod i gyfanswm o £24.747 miliwn. Gofynnodd yr aelodau am ragor o fanylion o gategoreiddio'r dyledwyr hyn, yn benodol, a oedd unrhyw gyfrifon a oedd yn gyfrifol am rannau helaeth o'r ffigwr hyn. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i roi dadansoddiad o'r dyledwyr hyn. Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd y câi hyn ei adrodd yn ffurfiol yng nghyfarfod mis Medi'r Pwyllgor.

- Gofynnodd yr aelodau a oes gan yr awdurdod bolisi am fynd i'r afael â chyfrifoldebau am straen pensiynau. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei reoleiddio. Os cymerir diswyddo gwirfoddol rhwng 55-59 oed, gofynnir i'r Cyngor ad-dalu colli taliadau gwasanaeth o'r cyllidebau refeniw. Mae'n rhaid i unrhyw gais am ddiswyddo gwirfoddol gael ei gefnogi gan achos busnes, sy'n dangos arbediad net ar ôl costau adfer unrhyw straen pensiwn.

- Gan ateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor sy'n perthyn i faint y TAW sydd i'w adennill, dangosodd y swyddogion eu bod yn amharod i ddatgelu ffigwr yn y cyfrifon pe bai'r ffigwr yn ansicr. Cafodd hawliad o tua £2.5 miliwn ei gyflwyno i CThEM ac mae'r hawliad yn destun proses adolygu a chymeradwyo.

- Gofynnodd Aelod i swyddogion egluro, pan gaiff eiddo ei werthu, sut y caiff yr elw neu'r colled ei gofnodi yn y cyfrifon. Dywedodd y Swyddogion fod i asedau eiddo werthoedd presennol – caiff asedau gweithredol eu hailbrisio bob 3 blynedd ar gyfer gwerthusiad cyfrifo. Fodd bynnag ni fydd gwerthusiad cyfrifo bob amser yn hafalu i werthusiad y farchnad. Pan gaiff eiddo ei werthu, mae gofyn i'r Cyngor ddangos enillion gwerthiant a'u cymharu â'r gwerth cyfrifol ar gyfer asedau yn y cyfrifon er mwyn pennu elw neu golled. Mae prosesau sefydledig ar waith i waredu eiddo.

- Ystyriodd Aelod y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys mwy o wybodaeth esboniadol, er enghraifft, y gronfa gyllidebol strategol wrth gefn. Pan fydd gwariant o'r cronfeydd wrth gefn, byddai hefyd yn ddefnyddiol bod ag esboniad, Awgrymodd yr Aelod nad oedd gwariant o'r cronfeydd wrth gefn yn destun yr un lefel o graffu. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, pan sefydlir cronfeydd newydd, caiff hyn ei gynnwys yn yr adran alldro; mae'r adroddiad cyllidebol hefyd yn cynnwys manylion ar gronfeydd wrth gefn. Defnyddir y cronfa gyllidebol strategol wrth gefn i gydbwyso'r cyfrifon a chaiff hyn ei gynnwys yn y cyfrifon ar gyfer 2019/20.

- Nododd yr aelodau fod y gyfradd cyfrannau gan gyflogwyr gyfartalog o tua 23% o gyflog sy'n denu pensiwn yn seiliedig ar ragdybiaethau. Gofynnodd aelodau a yw hyn yn awgrymu nad yw'r cynllun yn gadarn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y cynllun yn cael ei reoleiddio ac y

caiff cyflogeion eu hymrestru'n awtomataidd yn y cynllun pensiwn. Mae cyfrifoldeb dros lywodraethu'r cynllun pensiwn (gan gynnwys prisiadau actiwaraidd) ar y Pwyllgor Pensiynau.

Mae gan Fwrdd Ymgynghorol Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol rôl rheoli perfformiad. Arweiniodd cyflwyniad diweddaraf y Cyngor at dim 'baneri coch'.

- Gofynnodd yr Aelodau a gaiff gwybodaeth yr adroddir i'r Pwyllgor Pensiynau ei adrodd wedyn i'r Pwyllgor Archwilio, oherwydd bod y gronfa pensiwn yn cyfrif am wariant sylweddol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau nad yw'r materion hyn yn gynwysedig yn eglur yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac felly ni chânt eu hystyried fel mater o arfer, ond cânt eu cynnwys o fewn adroddiadau Archwilio Mewnol. Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried a ddylai fod gan y Pwyllgor Archwilio ymwybyddiaeth o adroddiadau'r Pwyllgor Pensiynau a gwneud rhagor o sylwadau yng nghyfarfod mis Medi y Pwyllgor.

- Nododd Aelod fod y Pwyllgor Safonau a Moeseg ar hyn o bryd yn adolygu'r broses o Ddatganiadau o Fuddion Personol Swyddogion. Cytunwyd bod yr AGS yn cyfeirio at adolygiad o brosesau buddiannau personol swyddogion sydd i ddod yn 2018/19.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

(1) Nodi bod rhaid i'r cyfrifon gael eu llofnodi gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'u cyflwyno ar gyfer archwiliad allanol a chyhoeddus.
(2) Yn nodi y caiff y Datganiadau a a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a archwiliwyd ar gyfer 2017/18 eu hadolygu gan y Pwyllgor hwn ym mis Medi cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor ynghyd â'r adroddiad archwilio.

Llywodraethu a Rheoli Risg

10 : ADOLYGIAD O DDATGANIAD SICRWYDD UWCH REOLWYR - ADBORTH - PENDERFYNIAD TERFYNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Ddatganiadau Sicrwydd Uwch-reolwyr (SMAS) ar ddiwedd blwyddyn 2017/18. Gwahoddwyd yr Aelodau i adolygu'r SMAS a gwneud sylwadau ar elfennau a hunan-asesir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS).

Dywedwyd wrth yr Aelodau y caiff yr SMAS eu defnyddio i asesu aeddfedrwydd llywodraethu a chymhwysol fframwaith 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a ddatblygwyd gan CIPFA/SOLACE. Gofynnir i bob Cyfarwyddwr ymateb i 23 o ddatganiadau llywodraethu da gan ddefnyddio graddfa aeddfedrwydd 5-pwynt ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb. Cyn cyflwyno adroddiadau, mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr gael sicrwydd gwaelodol o'u timau rheoli i gefnogi ymateb ledled y gyfarwyddiaeth i bob datganiad.

Mae pob adroddiad SMAS yn agored i gael ei herio, ei adolygu a'i cymeradwyo gan yr UDRh. Cafodd y datgeliadau canlynol eu cymeradwyo gan yr UDRh ym mis Mai 2018: y sefyllfa gyffredinol y cytunwyd arni; Datganiad Sicrwydd yr UDRh cyffredinol i'w gynnwys yn yr AGS; a Cynllun Gweithredu o faterion llywodraethu arwyddocaol i'r AGS.

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o’r adroddiadau SMAS a'r Cynllun Gweithredu AGS.

Cwestiynodd Aelod gyflawniad cais o 93% am Fesur a Rheoli Perfformiad. Dywedodd swyddogion y cafodd pob datganiad o sicrwydd eu hadolygu'n gyfunol a'u herio gan yr UDRh a rhannwyd y canlyniadau gyda'r Tîm Rheoli Archwiliadu. Dywedodd y swyddogion, er nad oedd unrhyw anghytundebau sylweddol â’r cyflwyniadau fel rhan o’r adolygiadau hyn, ceisir sicrwydd ehangach o archwiliad mewnol parhaus ar gymhwyso’r broses SMAS.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

11 : RHEOLI RISG CORFFORAETHOL (DIWEDD Y FLWYDDYN)

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y sefyllfa rheoli risg ar ddiwedd chwarter 4. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 343 o risgiau mewn cofrestrau Risg y Gyfarwyddiaeth ar ddiwedd chwarter 4. Trafodwyd risgiau wedi’u hesgoli a cheisiadau ar gyfer dadesgoli a’u cymeradwyo gan yr UDRh ym mis Mai 2018. Cymeradwyodd yr UDRh y dylid cludo 10 o risgiau’r gyfarwyddiaeth ymlaen fel risgiau wedi’u hesgoli.

Adolygodd yr UDRh risgiau wedi’u hesgoli’r gyfarwyddiaeth a diweddariadau risg corfforaethol gan berchnogion risg.  Cymeradwyodd yr UDRh newidiadau i ddisgrifiad neu sgôr risg gweddilliol ar gyfer y Risgiau canlynol:

- Gwydnwch Ariannol
- Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth
- Rhaglen Trefnidiaeth Ysgolion
- Rheoli Perfformiad

Nododd Aelod fod y risgiau’r Rhaglen Gwydnwch Ariannol a Trefniadaeth Ysgolion yn cynyddu o ran tebygolrwydd ac effaith.  Gofynnwyd i swyddogion esbonio'r rhesymwaith ar gyfer y newidiadau i’r Risg Gwydnwch Ariannol.  Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y caiff blaenoriaethu cyllidebol ei reoli fel rhan o ymagwedd gyffredinol at Wydnwch Ariannol y tymor hwy. Cafodd y CRR ei ddiweddaru yn unol â hyn er mwyn amsugno’r risg blaenoriaethu cyllidebol o fewn Risg i Wydnwch Ariannol, sy’n adlewyrchiad o’r sefyllfa bresennol ynghyd â heriau’r bwlch yn y gyllideb.  Cydnabyddir y bydd arbedion o £91 miliwn, ar ben arbedion o £145 miliwn, yn cymryd mwy o amser i’w pennu, mewnosod a chyflawni ac mae hyn yn parhau’n heriol.

Hefyd nododd yr Aelodau, mewn perthynas â'r risg o Erydu Arfordirol, nid oes unrhyw reoliadau wedi'u cofnodi.  Dywedodd y Swyddogion, yn y diweddariad, mae perchnogion y risg wedi pwysleisio'r diffyg mecanweithiau ataliol ar waith hyd nes i'r cynllun gael ei gwblhau, heb gyfeirio at reoliadau rheoli digwyddiadau yn y naratif. Cynhaliwyd sgyrsiau a byddant yn parhau i gael eu cynnal gyda'r rheolwyr parthed  y wybodaeth sy’n gynwysedig mewn asesiadau risg.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

12 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2017/18

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft 2017/18 i’w ystyried a’i gymeradwyo. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol drafft ei gylchredeg o’r blaen a chynhwyswyd y sylwadau a dderbyniwyd yn yr adroddiad lle y bo’n briodol.

Dywedodd Aelod y cafodd sylwadau eu cyflwyno mewn perthynas â Pharagraff 5.4 ar Dudalen 10 yr adroddiad blynyddol i adlewyrchu'r ffaith y cafodd sicrwydd eu derbyn na fu unrhyw doriadau Iechyd a Diogelwch statudol. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid y câi'r adroddiad ei ddiwygio er mwyn cynnwys y sylwadau hynny.

PENDERFYNWYD – y caiff Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18 ei gymeradwyo ac y caiff Pennaeth yr Adran Gyllid ei ddirprwyo â'r awdurdod i wneud unrhyw mân ddiwygiadau yn ôl y gofyn.

13 : ADBORTH/CYNLLUN GWEITHREDU HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Mae gofyn i’r Pwyllgor Archwilio adrodd i'r Cyngor ar ei berfformiad. Cynrychiolodd Hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio ar 27 Mawrth 2018 adolygiad 2017/18 ac mae canlyniadau’r hunanasesiad yn gynwysedig yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu adborth ar y gweithdy hunanasesu.

Cynhaliwyd y gweithdai gan gymhwyso methodoleg o ‘Audit Committees – Practical Guidance for Local Authorities and Police, 2013’ CIPFA. Yn dilyn y gweithdy, cyhoeddodd CIPFA ddiweddariad cynyddol i'w canllaw.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio wedi adrodd am sefyllfa gadarnhaol yn gyffredinol o'r adolygiadau o 'arfer da' ac 'effeithiolrwydd' yn ôl eu trefn. Defnyddiwyd canlyniadau’r asesiad a'r adolygiad presennol o’r cynllun gweithredu i ddatblygu wyth mae gwelliant, wedi’u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

Darparwyd crynodebau o’r asesiad o arfer da a’r asesiad o effeithiolrwydd yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor i’r geiriad canlynol ym Mharagraff 13 y Cwestiynau Arfer Da gael eu dileu:

*“or the PCC and Chief Constable”.*

Hefyd gofynnodd aelodau i’r diweddariad o ganllaw CIPFA gael ei gylchredeg yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Bod, yn amodol ar ddileu’r geiriau ym mharagraff 13 y Cwestiynau Arfer Da, mae’r Pwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu y Pwyllgor Archwilio, gan fyfyrio ar ganlyniadau’r gweithdy hunanasesu, diweddariad canllaw CIPFA.

Swyddfa Archwilio Cymru

14 : GWEITHGAREDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU / ADRODDIAD DIWEDDARIAD CYNNYDD 5 YN CYNNWYS PERFFORMIAD)

Anerchodd Sara-Jane Byrne o Swyddfa Archwilio Cymru y Pwyllgor a rhoddodd grynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn archwiliadau perfformiad 2017/18 SAC, gan gynnwys gohebiaeth blwyddyn Llesiant y Cenedlaethau i Ddod, Trosolwg a'r Craffu ac Adolygiadau Defnyddwyr Gwasanaeth.

Yn nhermau gwaith archwilio perfformiad 2018/19, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y rhaglen yn cynnwys adolygiadau dilynol ar rai astudiaethau llywodraeth leol blaenorol; adolygiad o archwiliad Cyflawni Uchelgais Prifddinas a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Hefyd nododd diweddariad y rhaglen gynnydd gydag astudiaethau llywodraeth leol 2016-17, 2017-18 a 2018-19. Awgrymodd Pennaeth yr Adran Gyllid y gellir cynnwys eitemau sy'n ymddangos yn yr adolygiad o Astudiaethau Llywodraeth Leol yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2019/20

Gan gyfeirio at yr asesiad Sicrwydd a risg – archwiliad perfformiad, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r fethodoleg i'w defnyddio a pha mor eang ei gwmpas y byddai'r eglurhad. Hefyd gofynnodd yr aelodau i Sara-Jane Byrne wneud sylwadau ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau Gwerth am Arian. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r ymagwedd yn cynnwys, yn bennaf, adolygu dogfennau wedi'u ategu gyda chyfweliadau ac arsylwadau o gyfarfodydd lle y gwelwyd bod eu hangen. Caiff briffiad project sy'n disgrifio cwmpas ac ymagwedd ei ddarparu i'r Cyngor. Mae'r gwaith yn ymwneud â nifer o feysydd megis rheolaeth ariannol, llywodraethu a rheoli risg ond nid yw'n adolygiad manwl o'r meysydd. Mae gwaith ar y project eisoes wedi dechrau a bydd yn llywio rhaglenni archwiliadau perfformiad yn y dyfodol a Chynllun Archwilio y flwyddyn nesaf.
Dangosodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, pan dderbynnir adborth, caiff ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio, lle y bo'n berthnasol.

Gofynnodd Aelod beth oedd barn SAC mewn perthynas â materion ynghylch cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch ar eitemau o offer. Dywedodd Sara-Jane Byrne fod rheoli asedau yn un o'r meysydd o fewn y gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg ond na fyddai'n adolygiad manwl. Mae SAC yn cydnabod bod ymateb y Cyngor i drasiedi Grenfell yn flaenoriaeth uchel.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

Rheoli'r Drysorlys
15 : ADRODDIAD PERFFORMIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy'n darparu gwybodaeth am berfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mai 2018. Fel y gofynnwyd gan y Pwyllgor, roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am feincnodi sy'n cymharu proffil aeddfedrwydd yr awdurdod â rhai awdurdodau eraill.

Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor, cadarnhaodd swyddogion nad yw'r awdurdod yn buddsoddi mewn undebau credyd ar hyn o bryd. Fel y disgrifiwyd yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, mae ymagwedd sylfaenol at fuddsoddiadau yn ystyried sicrwydd, hylifedd a chynnyrch.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol

16 : ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIAD MEWNOL 2017-18

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar yr Archwiliad Mewnol 2017/18. Dywedodd yr adroddiad, yn seiliedig ar y rhaglen o waith archwilio yr ymgymerwyd ag ef ac adolygiad o ddogfennau allweddol, mae cymhwysiad y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheolaeth o fewn y Cyngor yn effeithiol gyda chyfle ar gyfer gwelliant.

Dywedwyd wrth aelodau fod adolygiad o archwiliad mewnol wedi dod i'r casgliad bod Archwiliad Mewnol Caerdydd yn cydymffurfio ag Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd buddsoddiad sylweddol wrth gefnogi pedwar archwilydd tuag at gyflawni'r cymhwyster Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn darparu lefel o wydnwch i swyddogaeth yr Archwiliad Mewnol.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

17 : DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD CYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO 2018-19

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

18 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO 2018-19

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynydd ar yr Archwiliad Mewnol 2018/19. Amlygodd yr adroddiad y gwaith dros ran gyntaf y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar yr archwiliadau hynny a gariwyd drosodd o 2017/18. Fel cyfanswm cafodd 36 o adroddiadau archwilio eu dosbarthu y mae un ohonynt yn anfoddhaol ac mae ddau yn annigonol gyda'r angen am welliant sylweddol. Ategwyd Crynodeb Gweithredol o'r archwiliad anfoddhaol i'r adroddiad.

Nododd yr aelodau y barn archwilio 'annigonol gyda'r angen am welliant sylweddol' yn nhermau Mynediad a Chynllunio Trefniadaeth Ysgolion, yn yr ystyr nad yw rheoliadau naill ai ar waith neu'n aneffeithiol. Anogodd yr Aelodau y swyddogion i ystyried archwiliad dilynol prydlon o ystyried y pwysigrwydd a roddir i gynigion ysgolion Band B. Dangosodd Pennaeth yr Adran Gyllid y bydd y Cyfarwyddwr Addysg yn a bresennol yng nghyfarfod mis Medi y Pwyllgor a chaiff yr Aelodau gyfle i ystyried diweddariad.

Mae'r adran Archwilio yn gweithio gyda swyddogion o fewn Addysg i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad archwilio ar y trywydd cywir.

Nododd yr Aelodau fod y ddogfen tracio ar gyfer argymhellion archwilio yn 114 tudalen o hyd a gofynasant a oedd angen i'r Pwyllgor dderbyn crynodeb o'r argymhellion allweddol. Cytunodd Pennaeth yr Adran Gyllid i adolygu'r ddogfen.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

19 : CAMAU GWEITHREDU HEB EU CYFLAWNI

Nodwyd camau gweithredu dros ben y Pwyllgor.

20 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Ystyriodd y Pwyllgor ar ei Raglen Waith. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid y gofynnid i'r Cyfarwyddwr Addysg ystyried cynnydd a wnaed yn erbyn yr adroddiadau archwilio y soniwyd amdanynt mewn eitem flaenorol.

Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried a fyddai'n briodol i wahodd y Prif Swyddog Digidol i gyfarfod yn y dyfodol a goblygiadau ac effaith Brexit i'r awdurdod.

21 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 18 Medi 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.55 pm